**Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd Nos Lun, Mawrth 9fed 2015 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley, Margaret Bowe, Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Colin L Hughes, Brian Davies, Gaynor Wood, Catherine Jones, Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Shereen Devine, Roy Tickle, Colin Hughes, Geraint Williams, Mark Young.

Cadeiriwyd Pwyllgorau Cyllid a Materion Cyffredinol gan y Cyng. Raymond Bartley gyda'r Cyng. Margaret Bowe yn cadeirio'r Pwyllgor Cynllunio.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cyfeiriodd y cadeirydd at y ffaith fod y Faeres Mrs Julia Parkes yn mynd i mewn i ysbyty yn Lerpwl ar y 12fed a bydd yno rhwng 10 - 14 diwrnod. Dymunodd y cadeirydd dymuniadau gorau'r cyngor i'r Faeres a dymunodd iddi adferiad cyflym ac ardderchog.

**215. Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiad canlynol:

(1) Cyng. Raymond Bartley - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.

**A. <u>Pwyllgor Cynllunio:</u>**

**216.** (1) Ceisiadau am ganiatâd cynllunio.

(a) Ynglŷn â'r cais a dderbyniwyd ar gyfer Coedwig ger Lleweni, Lleweni Parc, Ffordd yr Wyddgrug (gohiriwyd ar 9.2.15 a 23.2.15) cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r cais. Er hynny, tra ddim yn gwrthwynebu, cytunwyd i ofyn am sicrwydd y byddai rheolaeth mewn lle i wneud yn siŵr y bydd neb yn aros ar y safle trwy'r flwyddyn ac yn gwneud y safle yn breswyl parhaol.

(b) Ynglŷn â'r cais a dderbyniwyd ar gyfer Iard y Rheilffordd, Ffordd y Rheilffordd i beidio â gwrthwynebu'r cais am ganiatâd cynllunio. Er hynny tra ddim yn gwrthwynebu'r cais, cytunwyd i dynnu sylw at y sylwadau canlynol: (1) Tra roedd darpariaeth ar gyfer parcio i'r anabl a lle parcio beiciau, nid oedd yn amlwg fod darpariaeth ar gyfer beiciau modur. Deallir y dylai cynlluniau cynllunio oedd yn dangos cyfleusterau parcio fod a darpariaeth ar gyfer beiciau modur - yn y fan yma awgrymwyd y dylai fod darpariaeth ar gyfer o leiaf pedwar beic modur. (2) Caniatáu darpariaeth ar gyfer man disgyn ar gyfer bysiau gwasanaeth lleol.

(2) Materion Cynllunio eraill: Ymgynghoriad CSDd - Canllawiau Cynllunio Atodol - nodwyd.

**B. <u>Pwyllgor Cyllid:</u>**

**217. Cyfrifon:** 1. Cytunwyd i dalu'r cyfrifon canlynol a dderbyniwyd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Clerc y Dref - ad-daliad prynu stampiau - 100 x 2il ddosbarth (rhif siec 005574) | - | £53.00 |
| (2) | Clwyd Wynne - ad-daliad costau prynu cloriau arbenigol dogfennau archif ar gyfer yr archif gymunedol (rhif siec 005575) | - | £121.65 |
| (3) | Cambrian Woodland Services - gwaith coed ym Mryn Parc (Cofnod 289(2)(3) (28.4.14) yn cyfeirio) (rhif siec 005576) | - | £1,830.00 |

(4) CSDd - goleuadau newydd ar gyfer Coeden Nadolig cylchfan Parc Myddleton - £2,629.66
(Cofnod 73(3)(5) (8.9.14) yn cyfeirio)
(rhif siec 005577 )

(5) Sodexo - cynnal a chadw Gardd Dr E.P. - £605.88
(rhif siec 005578)

(6) CSDd - 4ydd a'r cyfraniad olaf ar gyfer neuadd y dref - £5,000.00
(rhif siec 005579)

(7) Canda Copying - costau llungopïwr - £179.70
(rhif siec 005580)

Cyfanswm taliadau: £10,419.89.

2. Nodwyd adroddiadau ariannol cyfnod **1.4.14 - 28.02.15**

3. Unrhyw faterion ariannol eraill: (1) Nodwyd derbyn cyfraniad o £50 i'r archif gymunedol oddi wrth Cyfeillion Ysgol Rhydgaled.
(2) Nodwyd derbyn £1,647.05 sef ad-daliad TAW.
(3) Nodwyd derbyn llythyr oddi wrth Blachere Illuminations ynglŷn â thaliadau cerdyn.
(4) Ystyriwyd y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth y Pensions Regulator ynglŷn â dyletswydd gyfreithiol newydd ar gyflogwyr i gofrestru aelodau staff sy'n gymwys ar gyfer cynllun pensiwn yn y gweithle yn awtomatig a chyfrannu tuag ato, yn effeithiol o 1.2.2017. Cytunwyd i glerc y dref, fel y swyddog cyllid, gael ei enwebu ar ran y cyngor tref fel y cyswllt.
(5) Nodwyd derbyn £250 oddi wrth HM Treasury ynglŷn â gwarant rhagbryniant stoc rhyfel.

**C. <u>Pwyllgor Materion Cyffredinol</u>:**

**218. Llythyron, E-byst a Hysbysiadau:** (1) Penderfynwyd nodi tair eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bod angen ar y canlynol:

(1) Cyfeiriwyd y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Coleg Dinbych at yr is bwyllgor cymorthdaliadau.
(2) E-bost oddi wrth y Cyng Colin Hughes ynglŷn â chaniatâd absenoldeb. Eglurodd clerc y dref fod Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i'r cyngor gymeradwyo cyfnod o absenoldeb. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i gymeradwyo cyfnod o absenoldeb am ddau fis ac i adolygu ymhellach ar ddiwedd y cyfnod.**
(3) E- bost oddi wrth Gary Williams (CSDd) ynglŷn hyfforddiant ar y cod ymddygiad. Cytunwyd y dylai'r aelodau gymryd rhan ond roeddynt wedi eu rhannu ynglŷn â ddylai'r hyfforddiant fod yn ystod y dydd neu fin nos. O'r ddau leoliad hyfforddiant a gynigwyd, cytunwyd mai Rhuthun oedd y lleoliad a ffafriwyd.

**219. Cofnodion / Adroddiadau Cyfarfodydd is bwyllgorau'r cyngor.** Nid oedd unrhyw gofnodion / adroddiadau

**220. Adroddiadau**: <u>(1) Darlithoedd Treftadaeth</u>. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod yr ymateb i'r gyfres o ddarlithoedd wedi bod yn un da iawn a chanmolwyd y gyfres gan y rhai yn mynychu. Roedd hyn yn dangos eu bod yn boblogaidd - hon oedd y 5ed gyfres a'r nifer yn gyson. Neges y rhai oedd yn mynychu oedd eu bod yn edrych ymlaen at gyfres arall y flwyddyn nesaf.

(2) Prosiect Ieuenctid Dinbych. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Philip Stevens ar y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd yn gynharach yn y dydd. Roedd y Cyng Stevens yn dal yn gadeirydd. Roedd y prosiect yn ddiddyled yn ariannol. Roedd y prosiect yn mynd o nerth i nerth.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**221. Materion o Ddiddordeb:** 1. Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau a chytunwyd gweithredu lle bo angen:

(1) Dywedodd y Cyng Raymond Bartley fod y nant oedd yn llifio drwy Y Maes wedi ei chlirio - Llywodraeth Cymru yn talu'r costau. Cynnal a chadw yn y dyfodol o dan GSDd.

(2) Dywedodd y Cyng Bartley fod gwybodaeth ragarweiniol a dderbyniwyd yn dweud fod Aldi yn lleoli ar gyn safle Kwik Save gyda'er potensial am un neu ddwy o unedau eraill.

(3) Drysau'n Agored - mewn ateb i'r Cyng Medwyn Williams, dywedodd clerc y dref bod Cymdeithas Ddinesig Dinbych yn edrych ar hyn - gobeithir y bydd mwy o wybodaeth ar gael cyn bo hir.

(4) Tynnodd y Cyng Colin L Hughes sylw at y ffaith fod y llyfr presenoldeb, a ddechreuwyd yn 1975 yn dod tua'r terfyn a bod angen llyfr newydd.

(5) Cyfeiriodd y Cyng Rob Parkes at siop wag Bevan ar y Stryd Fawr yn dilyn adleoliad i hen siop Woolworth. Dywedodd y Cyng Bartley fod trafodaethau yn cymryd lle.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.35 o'r gloch.

Arwyddwyd:...............................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:..........................................